# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU 30 MEDI 1999

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA (SESIWN Y BORE)

**Bydd y sesiwn yn dechrau am 9am**

**Bydd y Dirprwy Lywydd yn cadeirio sesiwn y bore**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd** (15 munud)

Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Dadl ar Ddeddfwriaeth a gynigiwyd yn ystod toriad yr haf**

**Cynnig:** Bod y Cynulliad yn nodi'r camau a gymerwyd gan y Weinyddiaeth yn ystod toriad yr haf o ran llunio'r Gorchmynion a restrir ar dudalen is-ddeddfwriaeth y fewnrwyd. Mae copi o'r rhain wedi'u rhoi ar y Fewnrwyd a Gwe'r Siambr fel dogfen ategol.

**Dewiswyd y gwelliant canlynol:**

**Jocelyn Davies**

Ychwanegu'r frawddeg ganlynol at ddiwedd y cynnig ar ddeddfu a gynigiwyd yn ystod y toriad:"Bod y Cynulliad yn galw ar y Weinyddiaeth i adolygu'r weithdrefn ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am is-ddeddfwriaeth."

**Pwnc ar gyfer Dadl Fer (i ddechrau am 12.00pm)**

Karen Sinclair (De Clwyd) Iaith Arwyddion Prydain

**Bydd y sesiwn yn dod i ben am 12.30pm**

***********

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad yn ddiweddarach heddiw am 2.00pm (Ddydd Iau 30 Medi 1999)**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**Sesiwn 1999-2000 Rhif 21**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU 30 MEDI 1999

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA (SESIWN Y PRYNHAWN)

**Bydd y sesiwn yn dechrau am 2pm**

**Cwestiynau i Jane Hutt, yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,** (15 munud)

Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Tom Middlehurst, yr Ysgrifennydd dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed** (15 munud)

Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Dadl ar y Bartneriaeth gyda Busnesau**

**Cynnig:** Bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a llunio partneriaeth â busnes a ddisgrifir yn y ddogfen 'Ymgynghori â Busnes' a gyflwynwyd ddydd Gwener 24 Medi.

**Dewiswyd y gwelliannau canlynol:**

**1. Ieuan Wyn Jones**

Ychwanegu'r canlynol at ddiwedd y cynnig ar Bartneriaeth â Busnes:

"Bod y Prif Ysgrifennydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol o bryd i'w gilydd ar nifer ac ystod cyrff sy'n cynrychioli busnes yr ymgynghorir â hwy wrth gyflawni gofynion Adran 115 Deddf Llywodraeth Cymru."

**2. Michael German**

Ychwanegu at y diwedd:

a hefyd yn penderfynu bod pob plaid yn y Cynulliad yn cael eu cynrychioli yn y Bartneriaeth Fusnes yn ôl cyfran eu

cynrychiolaeth yn y Cynulliad, a bod mecanwaith yn cael ei roi ar waith i alluogi cynrychiolwyr o bob sector yn y Bartneriaeth Fusnes i roi eitemau ar agendâu cyfarfodydd.

**3. Alun Cairns**

Yn y ddogfen "Ymgynghori a Busnes", paragraff 11; cyn y geiriau " Business Wales", dileu’r geiriau "a chynrychiolwyr" ac ychwanegu "ac o leiaf bedwar cynrychiolydd o".

Yn y ddogfen "Ymgynghori a Busnes", Atodiad B, paragraff 2; dileu y gair "Haelod" a rhoi " Haelodau" yn ei le.

**Daw’r sesiwn i ben am 5.30pm**

***************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 9.00am, ddydd Iau 7 Hydref 1999 am sesiwn gydol y dydd**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**